# Gorfodi Parcio Sifil (GPS)

## Polisi Gorfodi Parcio

# CYNNWYS


| RHAN A: AMCANION STRATEGOL | | RHIF TUDALEN |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Amcanion | 4 |
| 3. | Deddfwriaeth | 5 |
| 4. | Taliadau Cosb | 5 |
| 5. | Swyddogion Gorfodi | 6 |
| **RHAN B: PROSESAU A GWEITHDREFNAU** | | |
| 6. | Hysbysiad Tâl Cosb (HTC) | 6 |
| 7. | Crynodeb o'r Broses Gorfodi Cosbau Parcio | 7 |
| 8. | Atebolrwydd Perchnogion Cofrestredig | 8 |
| 9. | Dulliau Gorfodi | 9 |
| 10. | Cysondeb a Chyfranoldeb | 9 |
| 11. | Y Tribiwnlys Cosbau Traffig (TCT) | 10 |
| **RHAN C: MATERION POLISI** | | |
| 12. | Parci Ar y Stryd | 11 |
| 13. | Arwyddion a Marciau Ffordd: ar goll, wedi'u cuddio neu wedi torri | 11 |
| 14. | Goddefebau a Gwaharddiadau | 12 |
| 15. | Gyrwyr/Teithwyr Anabl | 13 |
| 16. | Llwytho / Dadlwytho | 14 |

17. Cerbydau wedi'u gadael 14

18. Pobl Sy'n Ymweld â Phrydain 14

Atodiad A: Enghreifftiau o Godau Tramgwyddo a Disgrifiadau Ohonynt 15

Atodiad B: Y Broses Gorfodi Cosbau Parcio 21

Atodiad C: Y Broses Gorfodi Cosbau Parcio (Fersiwn Syml) 22

TORFAEN COUNTY BOROUGH — BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## RHAN A: AMCANION STRATEGOL

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi'i dynodi'n Ardal Gorfodi Sifil ac yn Ardal Gorfodi Arbennig o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

1.2 Fel Ardal Gorfodi Sifil, mae CBS Torfaen yn gyfrifol am orfodi'r cyfyngiadau parcio hynny, ar y stryd ac oddi ar y stryd, y mae Gorchmynion Rheoli Traffig neu Orchmynion Rheoliadau Meysydd Parcio Oddi ar y Stryd ledled ardal yr Awdurdod yn sail iddynt.

1.3 Yn ogystal, fel Ardal Gorfodi Arbennig, gellir gorfodi dau dramgwydd parcio ychwanegol sef: parcio mwy na 50cm o'r palmant a hynny heb fod o fewn man parcio dynodedig, (“parcio dwbl”), a pharcio wrth ymyl llwybr troed wedi'i ollwng, (sylwer nad yw'r tramgwyddau hyn yn galw am Orchymyn Rheoli Traffig).

1.4 Swyddogion Gorfodi (SG), sy’n gorfodi cyfyngiadau parcio ar draws y Fwrdeistref Sirol.

1.5 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaeth gweinyddol (swyddogaeth swyddfa gefn) ar ran Torfaen o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) y cytunwyd arno. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda gweithrediadau gorfodi trwy brosesu Hysbysiadau Tâl Cosb (HTC), gan gynnwys swyddogaethau talu, cynhyrchu llythyrau gohebiaeth a darparu cefnogaeth yn ystod y prosesau herio a chynrychioli.

### 2. AMCANION

2.1 Nod Gorfodi Parcio Sifil yw:

- Gwella llif traffig a diogelwch ar y ffyrdd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Gwella dibynadwyedd ac amseroedd teithio ar gludiant cyhoeddus.
- Lleihau'r camddefnydd o gilfachau i'r anabl.
- Lleihau problemau parcio o amgylch ysgolion ac yng nghanol trefi.
- Gwella mynediad i gerbydau brys a lleihau'r oedi iddynt.
- Gwella mynediad i gerbydau dosbarthu nwyddau.
- Gwella'r amodau i gerddwyr, beicwyr a'r gymuned anabl.

## 3. DEDDFWRIAETH

3.1 Mae'r Deddfau, y Rheoliadau a'r Gorchmynion statudol presennol sy'n rheoli parcio a gorfodi parcio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynnwys:

- Y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984).
- Deddf Rheoli Traffig 2004.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gorchymyn Cyfunol Rheoli Traffig a Therfynau Cyflymder 2013
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Gorchymyn (mannau parcio oddi ar y stryd) 2014
- Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.
- Canllawiau Statudol LlC i Awdurdodau Lleol ar Orfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd: Parcio 2014.
- Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig (Sylwadau ac Apeliadau) (Cymru) 2013.
- Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Ffioedd) (Cymru) 2013.
- Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig (Dyfeisiadau Cymeradwy) (Cymru) 2013.

3.2 Yn ogystal, caiff Gorchmynion Rheoleiddio Traffig sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar barcio eu cyfuno'n gyfnodol yn un Gorchymyn Cydgrynhoi a gall Gorchymyn Rheoliadau Meysydd Parcio Oddi ar y Stryd y Cyngor hefyd newid yn gyfnodol.

## 4. TALIADAU COSB

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn yr Awdurdod i gyhoeddi dwy lefel wahanol o daliadau cosb. Mae'r taliadau hyn fel a ganlyn:

| Tâl Cosb Lefel Uwch | Tâl Cosb Lefel Is |
|---|---|
| £70 | £50 |

4.2 Mae manylion y tramgwyddau sy'n berthnasol i'r taliadau uwch ac wedi eu nodi yn Atodiad A.

## 5. SWYDDOGION GORFODI

5.1 Bydd Swyddogion Gorfodi (SG), yn gwisgo ffurfwisg a fydd yn hawdd eu hadnabod o gymharu â'r rhai a wisgir gan yr heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Adnabod yn glir bod y gwisgwr yn Swyddog Gorfodi a gyflogir gan CBS Torfaen.
- Rhif personol i adnabod y SG.

5.2 Bydd SG yn cario ac yn defnyddio ffonau clyfar gydag ap ar-lein lle bydd manylion y tramgwydd yn cael eu cofnodi ac a fydd yn cynhyrchu'r HTC. Efallai y byddant hefyd yn gwisgo camerâu fideo CCTV ar y corff fel rhan o'u hoffer personol a / neu offer amddiffyn.

# RHAN B: PROSESAU A GWEITHDREFNAU

## 6. HYSBYSIAD TÂL COSB (HTC)

6.1 Bydd modd adnabod pob HTC yn unigryw ac yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, cânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

6.2 Bydd yr HTC yn dangos mai CBS Torfaen yw'r awdurdod gorfodi a bydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n cynnwys, ond nid wedi'i gyfyngu i:

- Y dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad.
- Marc cofrestru'r cerbyd dan sylw.
- Dyddiad, amser a lleoliad y tramgwydd honedig.
- Y rhesymau dros gyflwyno'r hysbysiad, (gan gynnwys cod y tramgwydd).
- Amserau arsylwi cyntaf a'r amser y cyflwynwyd yr hysbysiad.
- Rhif adnabod SG.
- Swm y tâl cosb.
- Cyfarwyddiadau talu
- Gwybodaeth am sut i herio'r Hysbysiad.

6.3 Nid oes angen i dramgwyddau fod yn destun cyfnod arsylwi cyn cyhoeddi HTC. Pan fydd Swyddog Gorfodi o'r farn bod y tramgwydd yn ddiangen ac yn arwain at dagfa a / neu rwystr gallant gyflwyno HTC.

6.4 Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, cyn cyhoeddi HTC, bydd SGS yn caniatáu cyfnod byr o amser rhwng arsylwi ar gerbyd sydd wedi parcio'n anghyfreithlon a chyflwyno HTC. Er yr uchod, ni fydd unrhyw gyfnod arsylwi yn cael ei gymhwyso mewn perthynas â pharcio y tu allan i ysgolion, mewn safleoedd bysiau, neu lle achosir perygl neu rwystr uniongyrchol fel ar groesfannau.

6.5 Mae'n dramgwydd o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i symud neu ymyrryd ar Hysbysiad Tâl Cosb heb ganiatâd unwaith y bydd wedi'i osod ar gerbyd.

## 7. CRYNODEB O'R BROSES GORFODI COSBAU PARCIO

7.1 Gellir rhoi HTC i gerbydau sydd wedi'u parcio yn groes i reoliadau parcio. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno trwy ei osod ar y cerbyd, neu, os yw'r gyrrwr yn bresennol, trwy ei gyflwyno i'r gyrrwr.

7.2 Gellir cyflwyno'r HTC drwy'r post hefyd os yw'r SG wedi ceisio cyflwyno'r Hysbysiad ond bod gweithredoedd y gyrrwr wedi ei atal rhag rhoi'r HTC i'r gyrrwr, neu ei roi ar y cerbyd. Gellir hefyd anfon HTC drwy'r post lle eir ati i orfodi ar sail camera.

7.3 Cymerir llun o bob tramgwydd er mwyn profi'r tramgwydd a chadarnhau cofnodion y SG. Pan fydd yn berthnasol, bydd hefyd yn profi bod yr HTC wedi'i osod yn gyfreithiol ar y cerbyd.

7.4 Bydd disgownt o 50% i bob HTC sy'n cael ei dalu o fewn y cyfnod disgownt.

7.5 Ymchwilir i bob her anffurfiol yn ôl eu teilyngdod, a bydd amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried. Gofynnir am brawf o'r amgylchiadau hyn lle bynnag y bo modd. Os derbynnir heriau anffurfiol yn ymwneud â HTC o fewn 14 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r HTC, ac yn dilyn ymchwiliad, nid yw'r sail yn gyfystyr â dileu'r HTC, yna cedwir at y gyfradd ostyngol am gyfnod arall o 14 diwrnod o ddyddiad cyflwyno llythyr gwrthod yr her anffurfiol.

7.6 Os na ddaw taliad i law o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r HTC (p'un a yw'r gyrrwr / perchennog wedi gwneud sylwadau yn ymwneud â'r HTC ai peidio), yna ceir manylion perchennog / ceidwad cofrestredig y cerbyd o'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Perchennog / ceidwad cofrestredig y cerbyd yw'r person sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am dalu'r tâl.

7.7 Ar ôl derbyn y manylion hyn gan y DVLA bydd Hysbysiad i Berchennog (HiB) yn cael ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf at y perchennog / ceidwad cofrestredig. Diben yr HiB yw sicrhau bod perchennog y cerbyd wedi derbyn yr HTC, atgoffa perchennog y cerbyd bod yr HTC bellach i fod i gael ei dalu'n llawn, ac os na chaiff ei dalu o fewn 28 diwrnod arall bydd yn cynyddu 50%. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r perchennog wneud sylwadau ffurfiol yn erbyn y tâl cosb. Dylid cyhoeddi'r HiB rhwng 28 a 56 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r HTC.

7.8 Os na dderbynnir y sylwadau ffurfiol mewn perthynas â'r HTC yna rhoddir hysbysiad gwrthod ffurfiol i'r unigolyn sy'n apelio. Bydd yr ohebiaeth hon yn cynnwys manylion y camau y gall yr un sy'n apelio eu dilyn, gan gynnwys a ydynt yn dymuno apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig (TCT).

7.9 Ar ôl 28 diwrnod ar ôl i'r HiB gael ei gyhoeddi, os bydd yr HTC dal heb ei dalu, anfonir Tystysgrif Arwystl at y perchennog / ceidwad cofrestredig y cerbyd, a fydd yn cynyddu'r tâl gwreiddiol 50%.

7.10 O leiaf 14 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Dystysgrif Arwystl, bydd y ddyled yn cael ei chofrestru yn y Ganolfan Gorfodi Traffig (CGT), yn Llys Sirol Northampton. Bydd y cam gweithredu hwn yn cynyddu'r tâl £8 pellach, sef y ffi llys gyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Caiff perchennog / ceidwad cofrestredig wybod bod y ddyled wedi'i chofrestru, ac, os na dderbynnir ymateb o fewn 21 diwrnod o'r diwrnod cofrestru, bydd Asiant Gorfodi penodedig, (beili), yn cael cyfarwyddyd i adennill y ddyled.

7.11 Bydd Asiantau Gorfodi yn adennill y ddyled i'r Awdurdod ac yn ychwanegu eu costau eu hunain yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

7.12 Mae trosolwg llawn o'r Broses Gorfodi Cosbau Parcio yn Atodiad B a fersiwn wedi'i symleiddio yn Atodiad C.

## 8. ATEBOLRWYDD PERCHENNOG COFRESTREDIG

8.1 Mae'r dyfyniad canlynol o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am dalu tâl cosb ar ôl ei gyhoeddi:

*"(1) Pan fydd tramgwydd parcio yn digwydd, penderfynir ar bwy fydd yn talu'r tâl cosb am y tramgwydd yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn."*

*"(2) Mewn achos nad yw'n dod o fewn paragraff (3), bydd y tâl cosb yn daladwy gan y person a oedd yn berchen ar y cerbyd a oedd yn rhan o'r tramgwydd ar yr adeg berthnasol".*

*"(3) Ble:"*

*"a) Mae'r cerbyd yn gerbyd a yrrir yn fecanyddol a gafodd ei logi ar y pryd o gwmni llogi cerbyd o dan gytundeb llogi;"*

*"b) Roedd y person sy'n ei logi wedi llofnodi datganiad atebolrwydd yn cydnabod ei atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad tâl cosb a gyflwynwyd mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd parcio sy'n ymwneud â'r cerbyd yn ystod cyfred y cytundeb llogi; a "*

*"c) Mewn ymateb i Hysbysiad i Berchennog a gyflwynwyd iddo, gwnaeth perchennog y cerbyd sylwadau ar y sail a nodwyd yn rheoliad 4 (4) (d) o'r Rheoliadau Cynrychioliadau ac Apeliadau a derbyniodd yr Awdurdod Gorfodi'r sylwadau hynny."*

*"Bydd y tâl cosb yn daladwy gan y person y cafodd y cerbyd ei logi ganddo a bydd y person hwnnw'n cael ei drin fel pe bai'n berchennog y cerbyd ar yr adeg berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn."*

## 9. DULLIAU GORFODI

9.1 Bydd Swyddogion Gorfodi yn cwblhau eu swyddogaethau gorfodi mewn ffurfwisg neu byddant yn defnyddio camera wrth fynd at i orfodi.

9.2 Yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004 a chanllawiau cysylltiedig, bydd dyfeisiau cymeradwy, (fel cerbydau CCTV symudol), yn cael eu defnyddio mewn rhai ardaloedd i orfodi cyfyngiadau penodol gan gynnwys parcio cerbydau y tu allan i ysgolion, mewn safleoedd bysiau ac ar groesfannau, yn anghyfreithlon.

9.3 Cyn dechrau pob sifft, bydd SG yn graddnodi'r ddyfais gymeradwy (naill ai caledwedd cyfrifiadurol neu gamera symudol â llaw), i sicrhau eu bod yn dangos yr amser a'r dyddiad cywir.

## 10. CYSONDEB A CHYFRANOLEDD

10.1 Mae pob SG wedi'i hyfforddi i'r un safonau, trwy lawlyfr mewnol, hyfforddiant ffurfiol a monitro parhaus.

10.2 Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod yna gylchwylio yn digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, dim ond wrth i adnoddau ganiatáu y gellir gorfodi, ac efallai na fydd cylchwylio mewn rhai ardaloedd pan fydd adnoddau'n gyfyngedig.

10.3 Bydd yr Awdurdod yn anelu at gynyddu cydymffurfiad â chyfyngiadau parcio trwy reolaethau parcio clir, wedi'u cynllunio'n dda, sy'n gyfreithiol ac wedi'u gorfodi. Mae gorfodi parcio sifil yn fodd i'r awdurdod allu cyflawni strategaethau ac amcanion trafnidiaeth ehangach, yn effeithiol.

10.3.1 Ni fydd gweithgaredd gorfodi ledled Torfaen yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun nac fel ffordd o gynhyrchu arian.

10.4 Mae'r broses o ddelio â heriau a sylwadau yn erbyn materion HTC wedi'i dogfennu'n dda a bydd yn cael ei chynnal mewn modd teg, diduedd a chyfartal. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys hawl eithaf pob unigolyn sy'n apelio i gyfeirio'r mater at gymrodeddwr annibynnol, y Tribiwnlys Cosbau Traffig (TCT).

10.5 Mae'n bwysig cydnabod y bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, dylai cyfranoledd, gwrthrychedd, tegwch a rhesymoldeb fod o'r pwys mwyaf.

10.6 Er mwyn cadw cywirdeb y broses, ni fydd unrhyw bwysau allanol gormodol yn cael eu dwyn, naill ai gan aelodau'r Cyngor neu uwch swyddogion eraill, i gynllunio i ddylanwadu'n ormodol ar y penderfyniadau yn rhinwedd eu safle yn unig. Yn yr un modd mae disgwyl i Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniadau.

10.7 Adran 10.16 Deddf Rheoli Traffig 2004: Mae Canllawiau Statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i Awdurdodau Lleol ar Orfodi Sifil o ran Torri Cyfreithiau Parcio yn nodi:-

*“Ni ddylai aelodau etholedig a staff diawdurdod, o dan unrhyw amgylchiadau, chwarae rhan i bennu canlyniad heriau neu sylwadau unigol. Mae hyn er mwyn sicrhau mai staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn, a hwythau'n unig, sy'n gwneud penderfyniadau ar y ffeithiau a gyflwynir”.*

## 11. Y TRIBIWNLYS COSBAU TRAFFIG (TCT))

11.1 Mae'r weithdrefn ar gyfer delio ag apeliadau parcio wedi'i nodi yn Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apeliadau) (Cymru) 2013. (Mae gweithdrefnau penodol lle gall modurwr herio neu gyflwyno sylwadau yn erbyn cyflwyno HTC wedi'u nodi ym mhob un o'r Hysbysiadau y cyfeirir atynt uchod yn y crynodeb o'r broses).

11.2 Mae'r TCT yn bodoli fel corff annibynnol i benderfynu ar apeliadau yn erbyn HTC. Os yw gyrrwr yn dewis apelio i'r TCT, yna mae'n fforffedu'r hawl i dalu'r tâl ar y gyfradd is.

11.3 Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i fodurwyr a gellir cynnal apeliadau naill ai trwy'r post, trwy gynhadledd ffôn, neu'n bersonol. Bydd apeliadau personol yn cael eu cynnal yn lleol mewn adeilad a bennir gan y TCT fel un sy'n addas ac yn gyfleus i bawb.

11.4 Penderfyniad y dyfarnwr fydd y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig gellir adolygu penderfyniad dyfarnwr: os yw dyfarnwr yn cyfeiliorni, gellir adolygu'r penderfyniad yn yr Uchel Lys.

## RHAN C: MATERION POLISI

### 12. PARCIO AR Y STRYD

12.1 Diffinnir cyflenwad parcio cyhoeddus ar y stryd fel parcio ar y briffordd gyhoeddus, fel arfer ar ochr y ffordd. Mae parcio cyhoeddus ar y stryd yn aml yn ddigyfyngiad, ond mewn rhai lleoliadau mae rheolyddion ar ochr y ffordd yn cyfyngu aros a llwytho. Gall parcio ar y stryd hefyd fod mewn cilfachau dynodedig a gellir codi tâl neu beidio.

12.2 Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn darparu pŵer i'r Awdurdod:

- Wahardd a/ neu gyfyngu’r parcio.
- Gorfodi’r rheoliadau.

12.3 Er bod rhai rheoliadau'n ymwneud â gwaharddiadau 24 awr, mae eraill yn destun oriau cyfyngedig. Gall yr oriau y mae cyfyngiadau mewn grym amrywio ac os oes unrhyw amheuaeth, dylid pori drwy'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol.

### 13. ARWYDDION A MARCIAU FFORDD: AR GOLL, WEDI'U CUDDIO NEU WEDI TORRI

13.1 **Llinellau melyn:**

- Pan honnir bod llinell felen/llinellau melyn wedi pylu neu os ydynt wedi eu gorchuddio gan atgyweiriad ar y briffordd, dylid archwilio'r ardal a gwneud gwaith adfer cyn gynted ag y bo modd.
- Pan fo'r tywydd, (h.y. eira), wedi cuddio'r llinellau yna cymerir camau i'w glirio cyn gynted ag y bo modd.
- Os cadarnheir bod her neu sylw dilys wedi'i wneud ar sail yr uchod, yna gellir canslo'r Hysbysiad Tâl Cosb. Fodd bynnag, lle gellir gweld y llinellau yn glir, er eu bod o bosib wedi treulio rhywfaint, dylid gorfodi'r HTC, (ond dylid cymryd camau i adnewyddu'r llinellau maes o law).

13.2 **Marciau ar balmentydd (cyfyngiadau llwytho):**

- Yn unol â'r llinellau melyn uchod.

13.3 **Arwyddion cudd:**

- Rhaid i arwyddion gwybodaeth sy'n cyd-fynd â chyfyngiadau aros a llwytho fod yn weladwy bob amser. Os honnir bod arwydd wedi'i guddio ac na ellid ei ddarllen, (e.e. graffiti, y tywydd, neu goed sy'n cuddio'r arwydd ac ati), dylid archwilio'r arwydd cyn gynted ag y bo modd a chymryd camau i'w adfer. Os profir bod yr honiad yn gywir gellir canslo'r HTC.

- Os gellir darllen yr arwydd yn hawdd yna dylid gorfodi'r HTC, (ond dylid cymryd camau adferol i adnewyddu'r arwydd maes o law).

13.4 **Arwyddion coll:**

- Os honnir bod arwydd ar goll dylid archwilio'r lleoliad cyn gynted ag y bo modd, ac, os caiff ei gadarnhau, dylid gwneud trefniadau i osod arwydd newydd.

## 14. EITHRIADAU A GWAHARDDIADAU

14.1 Bydd y cerbydau canlynol yn cael eu heithrio'n awtomatig o gyfyngiadau aros:

- Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu Ambiwlansys tra y byddant yn mynychu sefyllfaoedd brys neu yn unol â'u dyletswyddau.

- Cerbydau sy'n ymwneud â Chynnal a Chadw Priffyrdd dan gontract lle mae angen iddynt barcio ger y safle gwaith. Cerbydau Cyngor sy'n cyflawni dyletswyddau statudol fel casglu sbwriel, glanhau strydoedd a chynnal a chadw ymylon.

- Cerbydau sy'n arddangos Bathodynnau Glas dilys. (Gweler yr adran briodol ar Yrwyr / Teithwyr Anabl).

14.2 Gellir hefyd eithrio’r canlynol:

- Angladdau: cerbydau cludo'r arch a'r cynhebrwng.
- Priodasau: cerbydau'r briodferch.
- Cynnal a chadw adeiladau cyfagos.
- Symud dodrefn.
- Unrhyw reswm tebyg arall a dderbynnir gan y Cyngor.

14.3 Gellir atal cilfachau parcio dynodedig, ar y stryd neu oddi ar y stryd, am y rhesymau a ganlyn:

Caniatáu cynnal a chadw eiddo cyfagos lle mae angen mynediad i'r briffordd i gludo nwyddau, cerbydau hanfodol, sgipiau ac ati. (Fel rheol ni

fydd ceir yn cael eu hystyried yn “gerbydau hanfodol” a bydd disgwyl iddynt barcio yn unol â'r cyfyngiadau parcio. Mae gosod sgipiau ar y briffordd yn destun deddfwriaeth ar wahân).

- Cynnal a chadw coed/ymylon ar briffyrdd.

- Ar gais yr Heddlu.

- Am resymau diogelwch.

- Unrhyw rheswm tebyg a dderbynnir gan y Cyngor.

## 15. GYRRWYR/TEITHWYR ANABL

15.1 Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn darparu ystod o fuddion parcio i bobl anabl sy'n teithio naill ai fel gyrwyr neu fel teithwyr. Rhaid i ddeiliad y bathodyn fod yn bresennol er mwyn i'r consesiynau fod yn berthnasol.

15.2 Rhaid arddangos bathodynnau glas yn glir ac yn gywir tra bod y cerbyd wedi ei barcio.

15.3 Gall methu ag arddangos bathodyn Glas yn gywir arwain at HTC am fynd yn groes i'r cyfyngiad parcio perthnasol.

15.4 Ar yr amod bod y Bathodyn i'r Anabl wedi'i arddangos yn glir ac yn gywir, gall Deiliad y Bathodyn barcio mewn:

- Mannau parcio dynodedig i'r anabl: am gyfnod diderfyn o amser.
- Mannau parcio aros cyfyngedig: am gyfnod diderfyn o amser.
- Llinellau Melyn, (heb bresenoldeb marciau ar y palmant): am gyfnod nad yw'n hwy na 3 awr.

15.5 Ni chaniateir i Ddeiliaid Bathodyn i’r Anabl barcio:

- Y tu allan i gilfachau sydd wedi’u marcio.
- Mewn unrhyw ardal sydd wedi’i neilltuo’n benodol ar gyfer cerbydau neu bwrpas arall, (e.e. rhesi tacsis, safleoedd bysiau, mannau llwytho, mannau parcio i drigolion, ac ati)

15.6 O ran parcio oddi ar y stryd: polisi CBS Torfaen ar hyn o bryd yw caniatáu i bobl sy'n arddangos Bathodyn Glas dilys i'r anabl, ynghyd â phob modurwr arall nad ydynt yn mynd yn groes i unrhyw dramgwyddau oddi ar y stryd i barcio'n ddi-dâl mewn meysydd parcio oddi ar y stryd. Dylai deiliaid Bathodyn Glas bob amser edrych am arwyddion mewn meysydd parcio sy'n nodi'r trefniadau lleol sydd mewn grym

15.7 Rhaid i barcio gyda Bathodyn Glas bob amser fod yn unol â chanllawiau cyfredol y Cynllun Bathodyn Glas, sydd i'w weld ar www.gov.wales.

## 16. LLWYTHO /DADLWYTHO

16.1 Caniateir i gerbydau barcio yn groes i gyfyngiadau aros, ardaloedd aros cyfyngedig ac mewn parthau parcio preswyl, tra eu bod yn llwytho neu'n dadlwytho'n gyfreithiol ar yr amod bod SG yn gwylio gweithgaredd o'r fath, sy'n cynnwys y cerbyd, tra bod y cerbyd wedi'i barcio . (Yn yr un modd, rhaid i gerbydau sydd wedi'u parcio mewn cilfachau llwytho dynodedig hefyd fod yn llwytho / dadlwytho).

16.2 Dylai'r cyfnod arsylwi fod am o leiaf bum munud a dylid cyflwyno HTC ond os na welir unrhyw weithgaredd yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

## 17. CERBYDAU WEDI’U GADAEL

17.1 Pan fydd cerbyd yn parhau i gael ei barcio mewn ardal gyfyngedig am gyfnod, a'r cerbyd hwnnw wedi derbyn sawl HTC am yr un tramgwydd, gall SG riportio'r cerbyd fel sydd o bosib wedi'i adael a bydd yr adran berthnasol yn y Cyngor yn delio ag ef.

## 18. POBL SY’N YMWELD Â PHRYDAIN

18.1 Os rhoddir HTC i gerbyd sy'n dangos platiau cofrestru tramor, dylai'r system brosesu ei gydnabod yn awtomatig gan na fydd y rhif cofrestru ar ffurf y DVLA.

18.2 Dylid ystyried canslo'r HTC ond, pe bai taliad yn cael ei wneud, dylid ei dderbyn yn y ffordd arferol. Yn yr un modd dylid delio â phob gohebiaeth ac unrhyw sylwadau yn y ffordd arferol.

18.3 Os rhoddir HTC i gerbyd sydd wedi'i gofrestru yn y DU, sydd wedi'i fenthyg neu ei yrru gan breswylydd tramor, dylid gorfodi'r HTC yn erbyn y ceidwad / ceidwaid cofrestredig gan eu bod yn parhau i fod yn atebol amdano.

## ATODIAD A: ENGHREIFFTIAU O GODAU TRAMGWYDDO A DISGRIFIADAU OHONYNT

| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | | ***Tramgwyddau Ar y Stryd*** | |
| 01 | **5 mun** | **Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar linellau melyn sengl neu ddwbl, neu fel arall ardaloedd i gerddwyr yn ystod oriau penodedig y cyfyngiad(au). | Uwch |
| 02 | **0 mun** | **Parcio neu lwytho / dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho / dadlwytho mewn grym.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar linellau melyn sengl neu ddwbl ynghyd â gwaharddiad dim llwytho wedi'i ddynodi gan farciau palmant / ffordd gerbydau melyn yn ystod yr oriau gorfodi penodedig. | Uwch |
| 21 | **0 mun** | **Wedi parcio mewn bae / gofod ohiriedig neu ran o fae / gofod.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio mewn unrhyw ran o fae neu le parcio sydd wedi ei atal. Bydd yna arwyddion, hysbyslen a / neu gonau, pyst a fflagiau yn dangos yr ataliad. Bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yn y bae / gofod i ddangos yr ataliad os yw hynny'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr arwyddion yn cael eu gosod mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol i'r baeau / lleoedd sydd i'w hatal. | Uwch |
| 22 | **0 mun** | **Ail-barcio yn yr un man parcio neu barth o fewn awr (neu amser penodedig arall) ar ôl gadael.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn dychwelyd i'r un lle parcio o fewn yr amser penodedig ar ôl gadael y lle. Dim ond pan fydd arwyddion sy'n ymwneud â'r lle parcio yn nodi'n glir na chaniateir dychwelyd o fewn yr amser penodedig y gellir gorfodi'r tramgwydd hwn. | Is |
| 23 | **0 mun** | **Parcio mewn man parcio neu ardal nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd o'r dosbarth anghywir yn aros / wedi'i barcio o fewn ardal / bae wedi'i farcio sydd wedi'i ddynodi ar gyfer dosbarth penodol o gerbyd. Yn fwyaf cyffredin mae hyn yn cyfeirio at gilfachau llwytho sydd wedi'u dynodi ar gyfer “cerbydau nwyddau yn unig”. Er enghraifft, mae'n drosedd parcio mewn ardal ddynodedig / bae wedi'i farcio os nad yw'r cerbyd yn “gerbyd nwyddau”. | Uwch |

| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | | ***Tramgwyddau Ar y Stryd*** | |
| **24** | **0 mun** | **Heb barcio'n gywir o fewn marciau'r bae neu'r gwagle** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan welir bod un neu fwy o olwynion cerbyd y tu allan i farciau bae / gwagle parcio. Mae'r ffaith bod olwynion y cerbyd wedi'u parcio y tu allan i farciau'r bae / gwagle parcio yn golygu y bydd rhannau eraill o'r cerbyd yn tresmasu ar y lle sydd ar gael mewn baeau / lleoedd cyfagos neu'n achosi rhwystr. | Is |
| **25** | **10 mun** | **Parcio mewn man llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb lwytho.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn ardal / bae wedi'i farcio wedi'i ddynodi'n fan llwytho heb i'r SG arsylwi ar unrhyw weithgaredd llwytho / dadlwytho. | Uwch |
| **26** | **0 mun** | **Cerbyd wedi parcio mwy na 50cm (neu bellter penodedig arall) o'r palmant ac heb fod o fewn man parcio dynodedig.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio mwy na 50cm o ymyl y palmant ac nid o fewn man parcio dynodedig. Gelwir y tramgwydd hwn yn fwy cyffredin fel "parcio dwbl". | Uwch |
| **27** | **0 mun** | **Parcio gyferbyn â llwybr troed sydd wedi ei ostwng.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio wrth ymyl llwybr troed sydd wedi ei ostwng. Ni chaniateir i yrwyr barcio eu cerbydau mewn modd a fydd yn rhwystro llwybr troed is. Mae troedffordd is yn aml yn galluogi mynediad haws i adeilad ac mae hefyd yn galluogi aelodau'r cyhoedd fel rhieni â chadeiriau gwthio neu bramiau, a defnyddwyr cadeiriau olwyn i groesi'r ffordd gerbydau yn haws. | Uwch |
| **30** | **0 mun** | **Parcio am gyfnod hirach nag a ganiateir.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn bae / lle parcio am ddim am fwy o amser nag a ganiateir. Mae arwyddion cyfagos i'r bae / gofod yn dweud wrth gyrrwr y cerbyd pa mor hir y gall barcio yno am ddim. | Is |


| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | ***Tramgwyddau Ar y Stryd*** | | |
| **40** | **0 mun** | **Parcio mewn man parcio dynodedig i bobl anabl heb arddangos bathodyn dilys ar gyfer yr anabl.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn bae / gofod parcio dynodedig i'r anabl, heb arddangos bathodyn dilys ar gyfer person anabl yn glir. Gellir cyhoeddi HTC am y tramgwydd hwn am y rhesymau a ganlyn:<br>• Ni welir Bathodyn Glas dilys yn y cerbyd<br>• Os yw'r Bathodyn Glas yn annarllenadwy / yn aneglur.<br>• Mae'r Bathodyn Glas wedi dod i ben.<br>• Os na chaiff y cloc sy'n cyd-fynd â Bathodyn Glas ei arddangos ochr yn ochr â'r bathodyn (lle mae cyfyngiad ar faint o amser y gall deiliad y bathodyn barcio). | Uwch |
| **42** | **0 mun** | **Parcio mewn man parcio sydd ar gyfer cerbydau'r Heddlu.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn unrhyw ran o farciau bae sydd wedi ei dynodi ar gyfer yr heddlu. | Uwch |
| **45** | **0 mun** | **Parcio mewn safle/rhes Tacsi.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn unrhyw ran o rhes tacsi. Mae rhesi tacsi wedi eu marcio'n glir gan y marciau ffordd melyn o amgylch y rhes a'r gair 'tacsi'. Bydd arwyddion cyfagos yn nodi'r nifer uchaf o dacsis a all aros ar y safle. | Uwch |
| **46** | **0 mun** | **Wedi stopio mewn man sydd wedi'i wahardd (clirffordd).**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar unrhyw ran o glirffordd. Mae arwyddion gweladwy wrth fynd i mewn i'r glirffordd. | Uwch |
| **47** | **0 mun** | **Parcio ar arhosfan/ safle bysiau cyfyngedig.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn unrhyw ran o arhosfan / safle bysiau cyfyngedig. Mae arosfannau / safleoedd bysiau yn amlwg gan eu bod yn dangos melyn o amgylch yr arhosfan / safle ac weithiau'r geiriau 'bysiau' neu 'safle bysiau' o fewn y marciau. Bydd arwyddion ger yr arhosfan / safle yn dangos yr oriau gorfodi penodedig. | Uwch |

| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | ***Tramgwyddau Ar y Stryd*** | | |
| **48** | **0 mun** | **Stopio mewn man cyfyngedig y tu allan i ysgol.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar unrhyw ran o ardal barcio gyfyngedig y tu allan i ysgol wedi'i marcio gan farciau igam-ogam "Ysgol Cadwch yn Glir". Mae parcio yn agos at farciau igam-ogam Cadw'n Glir neu arnynt, yn peryglu bywydau cerddwyr trwy rwystro'u gallu i weld cerbydau sy'n agosáu. | Uwch |
| **49** | **0 mun** | **Parcio ar lwybr beicio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar unrhyw ran o lwybr beicio dynodedig. Gellir adnabod llwybr beicio trwy farciau ac arwyddion ffordd priodol. | Uwch |
| **99** | **0 mun** | **Stopio ar groesfan a / neu ardal groesi wedi'i marcio gan farciau Igam-Ogam.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio ar groesfan a / neu fan croesi sydd wedi'i nodi gan farciau igam-ogam. Mae parcio ger croesfannau neu arnynt, yn peryglu bywydau cerddwyr trwy rwystro eu gallu i weld cerbydau sy'n agosáu. | Uwch |


| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | | ***Tramgwyddau Oddi ar y Stryd*** | |
| **74** | **0 mun** | **Defnyddio cerbyd mewn man parcio mewn cysylltiad â gwerthu, cynnig neu ddatgelu gwerthu nwyddau pan waherddir hynny.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio mewn man parcio mewn maes parcio ac mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwerthu, cynnig neu ddatgelu gwerthu nwyddau. Dim ond pan fydd arwyddion sy'n ymwneud â'r man parcio yn nodi'n glir na chaniateir defnyddio'r cerbyd at y diben hwn y gellir gorfodi. | Uwch |
| **80** | **10 mun** | **Parcio'n hirach na'r cyfnod hiraf a ganiateir.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn bae / lle parcio am ddim am fwy o amser nag a ganiateir. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn y maes parcio a / neu'n agos at y bae / gofod yn hysbysu gyrrwr y cerbyd pa mor hir y gall barcio am ddim. | Is |
| **81** | **0 mun** | **Parcio mewn ardal gyfyngedig mewn maes parcio.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio mewn man cyfyngedig sydd wedi'i farcio'n glir mewn maes parcio. Bydd marciau wyneb ac arwyddion cyfagos i ddynodi'r ardal gyfyngedig. | Uwch |
| **86** | **0 mun** | **Wedi parcio y tu allan i farciau'r bae.** Mae'r tramgwydd yn digwydd pan welir bod un neu fwy o olwynion cerbyd y tu allan i farciau bae / gofod parcio mewn maes parcio. Mae'r ffaith bod olwynion y cerbyd y tu allan i farciau'r bae / gofod parcio yn golygu y bydd rhannau eraill o'r cerbyd yn ymyrryd ar y lle sydd ar gael mewn cilfachau / lleoedd cyfagos. | Is |

| Cod | Amser Arsylwi | Tramgwydd | Lefel y Tâl |
|---|---|---|---|
| | *Tramgwyddau Oddi ar y Stryd* | | |
| **87** | **0 mun** | **Parcio mewn man parcio i'r anabl heb arddangos bathodyn dilys ar gyfer unigolyn anabl.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio o fewn bae / gofod parcio dynodedig ar gyfer yr anabl mewn maes parcio heb arddangos bathodyn dilys ar gyfer unigolyn anabl. Gellir cyflwyno HTC am y tramgwydd hwn am y rhesymau a ganlyn:<br>• Ni welir bathodyn dilys ar gyfer unigolyn anabl yn y cerbyd<br>• Os yw bathodyn yr unigolyn anabl yn annarllenadwy / yn aneglur.<br>• Mae bathodyn yr unigolyn anabl wedi dod i ben.<br>• Os na chaiff y cloc sy'n cyd-fynd â bathodyn y person anabl ei arddangos ochr yn ochr â'r bathodyn (lle mae cyfyngiad ar faint o amser y gall deiliad y bathodyn barcio). | Uwch |
| **91** | **0 mun** | **Parcio mewn ardal nad yw wedi'i dynodi ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd wedi'i barcio mewn ardal o faes parcio nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw. Enghraifft o hyn fyddai lle mae car wedi'i barcio mewn lle parcio beic modur, neu feic modur sydd wedi parcio mewn man parcio beiciau. | Uwch |
| **95** | **0 mun** | **Parcio mewn man parcio at ddiben heblaw'r pwrpas a ddynodwyd ar gyfer y man parcio.**<br>Mae'r tramgwydd yn digwydd pan fydd cerbyd yn aros / wedi'i barcio mewn man parcio o fewn maes parcio at bwrpas heblaw'r pwrpas a ddynodwyd ar gyfer y man parcio. Enghraifft o hyn yw pan ddynodir man parcio mewn maes parcio i wefru cerbydau electronig ond mae cerbyd wedi'i barcio yn y gofod dynodedig sy'n gwerthu nwyddau. | Is |
| Mae'r Tâl Lefel Uwch wedi'i osod ar £70 ac mae'r Tâl Lefel Is wedi'i osod ar £50. (Mae lefelau'r ddau dâl yn gostwng 50% i £35 a £25 yn ôl eu trefn os cânt eu talu cyn pen 14 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad Tâl Cosb). | | | |
| Gellir cyhoeddi HTC 'ar unwaith' bob amser mewn amgylchiadau lle mae gan y SG dan sylw dystiolaeth, heblaw am gyfnod arsylwi, sy'n cefnogi'r weithred o gyflwyno'r HTC heb arsylwi ar y cerbyd am y cyfnodau lleiaf a nodir. | | | |


# The Parking Penalty Enforcement Process




## PCN Processing Procedure - Overview




## Appeal route in more detail




## Ignore route in more detail




## Ignore route in more detail (2)

